Cyfle swydd

**UNDEB AMAETHWYR CYMRU - Arweinydd Rhanbarthol**

**Lleoliad:** Gorllewin Cymru - Wedi'ch lleoli yn unrhyw un o'n swyddfeydd yng Ngorllewin Cymru.

Aberystwyth: Llys Amaeth, Plas Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BT

Caerfyrddin: Suite 10, 2nd Floor West, Ty Myrddin, Old Station Road, Carmarthen, Sir Gaerfyrddin SA31 1LP

Ceredigion: 21 Stryd Fawr, Llambed, Ceredigion SA48 7BG

Sir Benfro: Uned 4, Canolfan Fusnes Hwlffordd, Merlins Court, Winch Lane, Hwlffordd SA61 1SB

**Cyflog:** £42,000

**Contract:** Llawn amser, 35 awr

**Dyddiad Cau:** 16eg Ionawr 2026 - *rydym yn cadw'r hawl i gau'r swydd wag hon pe bai ymgeisydd addas yn cael ei ganfod cyn y dyddiad hwn*

**Am fwy o wybodaeth:** e-bostiwch Caryl.Roberts@fuw.org.uk

**I ymgeisio**: Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol at Caryl.Roberts@fuw.org.uk

**Pam Ymuno â'r UAC?**

Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn llais a pharchus ac dylanwadol mewn amaethyddiaeth Gymreig, gyda hanes cyfoethog a dyfodol dynamig. Trwy ymuno â'n tîm, byddwch yn dod yn rhan o sefydliad sy'n gweithio ar lawr gwlad sydd ag effaith uniongyrchol ar fywydau ffermwyr Cymru a chymunedau gwledig. Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr angerddol ac ymroddedig, gan gyfrannu at achos sy'n bwysig i bob un ohonom. Os ydych chi'n chwilio am rôl lle gallwch chi wneud gwahaniaeth gwirioneddol, rydyn ni eisiau clywed gennych chi.

**Am y Rôl**

Fel y Rheolwr Rhanbarthol ar gyfer Undeb Amaethwyr Cymru, byddwch yn ymgymryd â rôl arweiniol wrth oruchwylio ac arwain tîm rhanbarthol newydd, gan sicrhau safonau uchel o ddarparu gwasanaeth ledled Gorllewin Cymru. Byddwch yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu cynllun busnes rhanbarthol gyda'r nod o hybu twf aelodaeth a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n brydlon ac yn effeithlon. Mae hyn yn cynnwys rheoli prosesau gweinyddol, megis ymholiadau aelodaeth a chynnal cofnodion cywir, tra'n goruchwylio defnydd o'n system CRM (Zoho). Bydd eich arweinyddiaeth yn sicrhau bod y tîm rhanbarthol yn gweithredu'n effeithiol, gyda llwythi gwaith yn cael eu rhannu'n deg a chefnogaeth i aelodau'r tîm yn eu rolau.

Rhan allweddol o'ch rôl fydd cydweithio â thimau rheoli rhanbarthol ac uwch eraill. Byddwch hefyd yn cynrychioli'r UAC ar bwyllgorau lleol a grwpiau rhanddeiliaid allweddol, gan feithrin perthnasoedd cadarnhaol â swyddogion etholedig a phartneriaid allanol. Trwy ymgysylltu â grwpiau lleol megis pwyllgorau Parciau Cenedlaethol a gweithgorau Llywodraeth Leol, byddwch yn sicrhau bod llais yr UAC yn cael ei glywed a bod ei amcanion yn cael eu cyflawni yn y rhanbarth.

Yn ogystal â rheoli tîm, byddwch yn paratoi ac yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i Weithrediaeth yr UAC, gan dynnu sylw at lwyddiannau a heriau rhanbarthol, a gweithio gyda Phennaeth Cyfathrebu i gyhoeddi'r canlyniadau hyn. Byddwch hefyd yn cydweithio'n agos â Phennaeth Polisi i sicrhau bod diweddariadau amserol ar bolisi amaethyddol yn cyrraedd ein haelodau. Bydd gennych yr unig gyfrifoldeb am reoli staff eich rhanbarth, bydd eich goruchwyliaeth dros weithgareddau'r tîm yn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau mewnol yr UAC, tra'n hyrwyddo mentrau i wella diwylliant a pherfformiad tîm. Bydd eich rôl yn rhan annatod o arwain y tîm, datblygu'r rhanbarth, a chyfrannu at genhadaeth ehangach yr UAC.

**Amdanoch chi:**

Rydym yn chwilio am unigolyn gweithgar a rhagweithiol gyda phrofiad profedig o reoli timau a darparu gwasanaeth rhagorol. Yn ddelfrydol, bydd gennych gefndir mewn amaethyddiaeth, materion gwledig, neu sector tebyg, ond rydym yn croesawu ceisiadau gan arweinwyr cryf gyda sgiliau trosglwyddadwy.

**Hanfodol:**

- **Sgiliau Trefnu a Rheoli Amser Cadarn**: Y gallu i reoli aml-flaenoriaethau a goruchwylio gweithrediad effeithiol y tîm rhanbarthol.
- **Sgiliau Cyfathrebu Rhagorol**: Bydd angen i chi fynegi syniadau'n glir ac adeiladu perthnasoedd cadarn â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
- **Arweinyddiaeth a Rheoli Tîm**: Profiad o reoli timau, dirprwyo tasgau, ac ysgogi eraill i gyflawni nodau cyffredin.
- **Hyfedredd mewn Offer Digidol**: Yn gyffyrddus â Microsoft Office, systemau CRM (Zoho yn ddelfrydol), ac offer cyfathrebu digidol.
- **Proffesiynol a Hygyrch**: Agwedd gyfeillgar, sy'n canolbwyntio ar ddatrys problemau wrth weithio gydag aelodau a rhanddeiliaid.
- **Hyblygrwydd**: Bod yn barod i deithio ar draws y rhanbarth ar gyfer digwyddiadau allweddol, hyfforddiant, a chyfarfodydd.

**Dymunol:**

- **Gwybodaeth neu Ddiddordeb mewn Amaethyddiaeth Gymreig**: Mae angerdd am neu brofiad yn y sector amaethyddol yn hynod ddymunol.
- **Sgiliau Iaith Gymraeg**: Mae Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn fantais fawr.
- **Profiad mewn Ceisiadau Grant neu Waith yn Seiliedig ar Bolisi**: Mae gwybodaeth am bolisi amaethyddol a chynlluniau'r llywodraeth yn fuddiol.
- Sefydliad Aelodaeth: Byddai profiad bladnorol o weithio mewn sefydliad sy'n seiliedig a aelodaeth yn fanteisiol.